
# Y TARW SCOTCH - YN RHODIO Y CYMOEDD!



Yn 1816 gwelwyd arwydd ar waith haearn Tredegar yn datgan *`Cymerwch sylw... I weithwyr tlawd Tredegar i baratoi`ch hunain gyda phistolau, gwaywffyn, a phob math o arfau, i ymuno â`r genedl a `sgubo i ffwrdd pob Brenin, Tywysog, Gormeswr o bob disgrifiad, a gyrru o`r wlad pob Bradwr i`r achos gyffredin, ac i gladdu Newyn a Dioddefaint yn yr un bedd`.*




SCOTLAND

Roedd y datganiad hwn yn arwydd o newid ymhlith gweithwyr tlawd Mynwy a Brycheiniog, yn arwydd o eithafiaeth newydd ar eu rhan. Dywed DJV Jones... *`Am genhedlaeth bron, dangosodd glowyr a mwynwyr De Cymru deyrngarwch at y `Cattle`, sydd wedi cael eu hanwybyddu neu eu cam-ddeall gan haneswyr: roedd y teyrngarwch hwn yn ddigon i godi ofn ar gyflogwyr, y capel, undebau a chymdeithasau cyfeillgar. Os oedd y `Deyrnas Ddu` yn eiddo i rywun, roedd yn eiddo iddyn nhw`.*

Y Deyrnas Ddu, neu`r *Black Domain* oedd y tiroedd diwydiannol yn Nwyrain Cymru, o`r Rhymni i Abergafenni, o Langynidr i Gaerffili. Gwelwyd twf enfawr ym mhoblogaeth yr ardal hon rhwng 1801 ac 1851, gyda mewnfudwyr o Loegr, Iwerddon a Chymru yn cyrraedd yno`n chwilio am waith. Yno doedd undebaeth ddim yn gyfreithlon, ac roedd amodau byw a thai gwael yn golygu bod gweithwyr yr ardal yn chwilio am gynhaliaeth o ryw fath wrth rywun. Ond roedd ffactor arall wnaeth ychwanegu at apel y Tarw Scotch yn yr ardal hon, sef ansicrwydd swyddi. **Yn ôl** Jones.. *`Roedd poblogaeth y Deyrnas ddu yn byw mewn ofn parahol - ofn colli eu swyddi a`u cartrefi: roedd mor anodd i ddianc wrtho â pneumoconiosis`*








Ganed y Tarw Scotch o`r ofn hwn. Roedd y Tarw yn datgan mai ef oedd ***gelyn pob dychryndod***. Felly pwy oedd y Tarw a`i ddilynwyr, y *Scotch Cattle*? Mae Gwyn Alf Williams yn dweud ei fod yn fudiad dirgel, gyda threfn soffistigedig, oedd yn **gorfodi undod** ar weithwyr De Cymru drwy ddychryn. Roedd gyrr o`r *cattle* yn ymweld â thai *blacklegs* a drwgweithredwyr eraill oedd wedi torri *Cyfraith Scotch*, dan arweiniad y Tarw. Yr enw roddwyd ar yr arweinydd oedd *Lolly*, sy`n dod o`r gair Cymraeg `lol`. Byddent yn ymosod ar eiddo, yn anfon llythyron bygythiol, yn chwythu cyrn, torri mewn i dai pobl a gwneud swn anifeiliaid, yn dinistrio eiddo cwmniau ac yn cyfarfod yn y nos. Yn ôl gwyn Alf Williams roedd gan y Tarw 9,000 o `dda` ffyddlon.

Roedd y *cattle* hefyd yn defnyddio proses oedd yn cael ei galw`n *scotching*, ble fyddai pobl yn gorfod tyngu llw o ffyddlondeb. Efallai mai prif gyfraniad y *Scotch Cattle* i hanes Cymru oedd yr ymgais i orfodi`r dosbath gweithiol i weithredu gyda`i gilydd fel uned - i greu ymwybyddiaeth dosbarth ymhlith pobl oedd yn cael eu rhannu gan ddiffyg hawliau undebau, a gorthrwm dyddiol. Byddent yn anfon llythyron bygythiol at bobl oedd yn torri streic..

*`I bob Glowr, Turncoat, Bradwr, ac eraill. Rydym yn eich rhybuddio eilwaith, ac am y tro olaf. Byddwn yn tynnu calonnau`r gweithwyr sy`n cael eu henwi huchod, a gosod dwy galon ar gyrn y tarw, fel bod pawb yn gweld beth sy`n digwydd i fradwyr. Rydym yn adnabod y bradwyr bob un. Tystiwn i hyn gyda`n gwaed.... X.`*



Cleddyf y gwartheg gwallgof!




Cyfraith Scotch - Scotch Law

Yn 1835 cafwyd tri pherson yn euog o weithredoedd oedd yn ymwneud â`r *Tarw Scotch*. Roedd y mudiad wedi ymosod ar dy contractiwr a saethu drylliau. Er bod ei wraig yn marw o`i hanafiadau, roedd y contractiwr ofn galw`r meddyg. Dedfrydwyd tri aelod o`r mudiad i farwolaeth. Crogwyd Edward Morgan, glowr 35 oed yng Ngharchar Caerdydd. Newidiwyd y ddedfryd ar y ddau arall, sef Shoni Coal Tar (John Jones), a William Jenkins i drawsgludo.

**Daw`r Tarw Scotch / I rodio y cymoedd / I godi y Cymry o`r llaid / Ei gri oedd yn daran / Drwy ddrysau yr arian / A`i garnau a`i gyrn / Yn galw am waed!.** Dyma yw darlun un gân werin o fudiad y *Scotch Cattle*. Dim cweit, efallai. Ond roedd yn fudiad pwysig. Llanwodd wacter gafodd ei greu gan orthrwm deddfau gwrth-undebol. I rai haneswyr, roedd y Tarw a`i ddilynwyr yn ddim mwy na *thugs*. I eraill, ac i *Seren Tan Gwmwl*, roedden nhw rhan anrhydeddus o Hanes Cymru am iddyn nhw gyfrannu at greu ymwybyddiaeth dosbarth ymhlith pobl ddiamddiffyn oedd heb yr hawl cyfreithlon i drefnu eu hunain.

# Mobutu - ysbeiliwr cenedl gyfan


Roedd Mobutu Sese Seko yn Arlywydd Zaire am 32 mlynedd tan iddo farw ym mis Medi y llynedd. Fe fydd yn cael ei gofio mewn hanes fel un o unbeniaid mwyaf dinistriol cyfnod annibynniaeth gwledydd Affrica - dyn oedd yn cael gwared ar wrthwynebwyr mewn dull digrugaredd, tra ar yr un pryd yn trosglwyddo arian a chyfoeth Zaire i`w gyfrif banc ei hun. Defnyddiodd orthrwm a llygredigaeth i ddal ei afael ar wlad gafodd ei rheibio ganddo, a gwaneth y *kleptocrat* hyn i gyd gyda chymorth Banc y Byd ac Uncle Sam.



hongo yn y Congo!

Prif arf Mobutu wrth gynnal ei safle oedd arian. Ysbeiliodd y wlad cymaint fel bod y balans yn ei gyfrif banc personol yn £6.3 biliwn, tu`r un faint â dyled genedlaethol Zaire. Wedi gyrfa fel newyddiadurwr daeth i rym mewn *coup d`etat* yn 1965 - gyda chefnogaeth y CIA. Yn 1984 cyfaddefodd pennaeth y CIA William Colby bod Mobutu wedi cael ei ddewis am mai ef oedd y dyn mwyaf tebygol o atal lledaeniad Comiwnyddiaeth yn Affrica.

Fel gwobr am gadw adnoddau naturiol gwerthfawr ei wlad allan o ddwylo`r Sofietaid, a darparu llwybr cyfleus ar gyfer arfau America i *guerrillas* UNITA yn Angola, anwybyddwyd dwylo blewog Mobutu.



O fewn Zaire cyflwynodd system *snakes and ladders* o lywodraethu, ble fyddai arweinwyr eraill yn cael eu harestio a`u poenydio, ond yn cael eu cadw ar y bwrdd chwarae. Ar ddechrau`r 70`au lansiodd **Mobutisme**, sef rhyw fath o gwlt personol benfawr. Byddai`r newyddion dyddiol yn dechrau gyda delweddau o Mobutu yn disgyn o`r cymylau fel rhyw fath o dduw. Cafodd ei awr fawr yn 1974 drwy lwyfannu`r ffeit *Rumble in The Jungle* enwog rhwng Ali a Foreman, gan gyfrannu $5 miliwn yr un i`r ddau focsiwr o goffrau llywodraeth Zaire.




KATANGA, FY FFRIND.

KATANGA, FY FFRIND.

Cafwyd nifer o ymdrechion i gael gwared arno, ond roedd Uncle Sam wastad yn barod i`w gynorthwyo, ac fel mae`r enghraifft hon yn dangos roedd gwir angen cymorth America arno. Yn 1977 ymosodwyd ar Zaire gan *rebels*. Ymateb Mobutu oedd anfon byddin o *pygmies* i`r ffrynt: roedd rhain yn gwbl ddiwerth am na fedren nhw weld drwy`r borfa dal, a chawsant eu difa mewn munudau. Ond roedd cymorth wrth law i Mobutu - Ffrainc, Gwlad Belg, ac wrth gwrs America.

Gydag economi Zaire ar fin dymchwel oherwydd ysbeilio Mobutu trosglwyddwyd Banc Cenedlaethol y wlad i ddwylo Almaenwr o`r enw Erwin Blumenthal. Yn 1979 gadawodd hwn ar ôl blwyddyn oherwydd bod Mobutu yn defnyddio`r Banc Cenedlaethol fel cyfrif personol. Erbyn 1980 roedd chwyddiant yn 71,000 % - a Mobutu`n dal i lywodraethu dros y *kleptocracy*. Disgwyliai i bawb ddilyn ei egwyddorion `*grab-what-you-can*` ef - roedd yn berchen ar dai moethus yn Ffrainc, Gwlad Belg, Venice, Castell yn Sbaen, 38 *yacht*, a *ranch* ym Mhortiwgal. Yn ei gartref yn Zaire, oedd yn ymdebygu i Balas Versailles, roedd ganddo gasinos, ac yn rhyfedd iawn gapel er cof am ei fam ble roedd côr yn canu bedair awr ar hugain y dydd mewn shifts.




Gyda chwymp Wal Berlin dywedodd America wrtho am ymddiswyddo - doedden nhw ddim ei angen rhagor Gwrthod wnaeth Mobutu, ond symudodd y wlad at system fwy `democrataidd`. Caniataodd i 100 o bleidiau gwleidyddol gwahanol gystadlu â`i gilydd mewn etholiadau, ond enw arweinydd bob un oedd Mr Mobutu!

Erbyn 1996 roedd yr *holocaust* yn Rwanda gyfagos yn effeithio ar Orllewin Zaire, yn enwedig rhanbarth Kivu. Heriwyd Mobutu am reolaeth o`r wlad gan ei hen elyn Laurent Kabila. Wedi colli cefnogaeth ei ffrindiau yn y gorllewin ceisiodd un *flash the cash* olaf, a chyflogodd byddin o filwyr cyflog, ond roedd yn rhy hwyr. Dadorseddwyd Mobutu pan orymdeithiodd y fyddin *rebel* mewn i Kinshasa - ar ôl colli eu ffordd yno - yn gwisgo *flip flops*.

Ffodd Mobutu i Morocco gydag *entourage* o hanner cant o weision, fel rhyw fath o *King Lear* modern, ac fel hwnnw bu farw heb seremoni, wedi ei ddad-orseddu, ar Fedi 7, 1997 yn 66 oed.



# XANANAGANS YN NWYRAIN TIMOR.!

## YN GWRTHSEFYLL I ENNILL!



Ar y 7fed o Ragfyr 1975 glaniodd milwyr o Indonesia yn Nwyrain Timor. Mae hanes yr hyn ddigwyddodd wedyn yn un o *holocausts* mwyaf yr Ugeinfed Ganrif. Yn oes teledu a chyfathrebu byd eang, wnaeth lleisiau pobl Dwyrain Timor dim cyrraedd clustiau pobl y byd, a`r unig eithriad oedd llais trist ar radio gafodd ei glywed yn Darwin, Gogledd Awstralia, dri chan milltir i`r de. Dywedodd... *`Mae milwyr Indonesia yn lladd fy mhobl yn gwbl ddiwahân. Mae menywod a phlant yn cael eu saethu ar y strydoedd. Apel yw hwn am gymorth rhyngwladol. SOS ydyw. Rydym yn apelio ar bobl Awstralia, ar bobl y byd i gyd. Rhowch gymorth i ni.`*

Ddaeth y cymorth ddim. Llofruddiwyd dros 60,000 yn nhri mis cyntaf y goresgyniad. Yn ystod y dair mlynedd ar hugain ers hynny mae dros 200,000 o bobl Dwyrain Timor wedi cael eu lladd dan reolaeth unbeniaethol ac anghyfreithlon yr Arlywydd Suhatro - un rhan o dair o`r boblogaeth. Mae`r ffigyrau hyn yn cael eu cadarnhau gan Senedd Awstralia, yr Eglwys Gatholig, ac Amnest Ryngwladol. Unwaith eto rhaid pwyntio`r bys at America.

Yn ddiweddar dywedodd swyddog o`r enw Phillip Liechty oedd yn arfer gweithio i`r CIA yn Jakatra... *`Heb gymorth milwrol sylweddol a pharhaol wrth yr US fyddai`r Indonesiaid wedi methu. Ond doedd neb yn poeni. Doedd neb yn becso`r dam. Yr unig gyfiawnhad glywes i am yr hyn wnaethon ni oedd bod Dwyrain Timor ar fin cael ei derbyn fel aelod newydd o`r Cenhedloedd Unedig, a`i bod yn bosib na fyddai`n cefnogi`r America yn yr UN`.*

Ond fe wnaeth pobl Dwyrain Timor wrthsefyll y goresgyniad. Os fydd rhywun ar ryw adeg yn ysgrifennu hanes o`r Ugeinfed Ganrif sy`n cofnodi pobl wnaeth arwain dinasyddion cyffredin yn erbyn gorthrwm a hunanoldeb, a gwneud hynny`n gwbl anhunanol drwy beryglu eu bywydau eu hunain, fe fydd enw Kay Rala Xanana Gusamo, aka **Xanana**, arweinydd Ffrynt Cenedlaethol er Rhyddhau Dwyrain Timor - neu`r **Falantil** - yn ymuno â rhai Ho Chi minh a Gandhi yn oriel yr arwyr. Yn 1981 daeth yn arweinydd Falantil - gyda`i farf a`i *beret* mae`n edrych yn debyg iawb i Che Guevara, ac fel Che fe ddaeth yn ffigwr chwedlonol wnaeth lwyddo i osgoi cael ei ddal am dros ddegawd.

Ysgrifennodd Xanana yn ei ddyddiadur. *`Cefais fy nghofleidio gan hen ddynion. Roedden nhw`n crio ac yn dweud "caria `mlaen â`r frwydr fy mab. Paid idlio byth." Cawsom nerth o glywed hyn, ac fe wnaethon ni addo cario `mlaen i frwydro, yn barod i farw dros ein mamwlad`.*

Ar Dachwedd 20fed, 1992 cafodd Xanana ei ddal a`i rhoi ar brawf. Yn yr un cyfnod cafodd cannoedd o ddynion ifanc Dwyrain Timor eu gorfodi i dyngu llw o deyrngarwch i Indonesia drwy yfed gwaed ei gilydd o flaen offeiriaid. Llwyddwyd i droi`r weithred ofnadwy hon yn un herfeiddiol. Wrth gyflawni`r hyn oedd yn orfodol arnyn nhw roedd timoreaid ifanc yn sibrwd geiriau Xanana`n dawel yn eu hiaith eu hunain - `RYDYN NI`N GWRTHSEFYLL I ENNILL`. Yn ei achos llys dywedodd Xanana.. *`Dyw hi ddim yn bwysig os wnewch chi basio dedfryd o farwolaeth arnaf i yma heddiw. Maen nhw`n lladd fy mhobl, a dydw i ddim yn fwy pwysig na`u brwydr arwrol nhw`.*







Ond talu`n ddrud am lwyddiannau Xanana wnaeth pobl Dwyrain Timor. Cyflwynodd yr Indonesiaid dacteg newydd i geisio ei ddal ble wnaethon nhw orfodi miloedd o hen bobl, menywod a phlant i orymdeithio drwy`r jyngl yn chwilio am y *guerillas*, ac yn galw arnyn nhw i roi`r gorau i`w brwydr. Serch hynny yr hyn glywodd Xanana a`i gyfeillion oedd lleisiau yn galw arnyn nhw yn eu hiaith eu hunain - Te tum - yn dweud wrthyn nhw eu bod mewn perygl, a bod angen iddyn nhw ffoi ar frys.

Ers i`r Indonesiaid gipio Dwyrain Timor mae rhestr faith o weithredoedd erchyll wedi cael eu cyflawni ganddyn nhw. O`r diwrnod cyntaf cafodd pobl eu saethu a`u llofruddio yn ddiwahân. Yn Vatu-la cafodd pawb oedd yn medru darllen ac ysgrifennu eu llofruddio - yn aml roedd yr Indonesiaid yn torri eu clustiau a`u horganau rhywiol i ffwrdd a`u gorfodi i`w bwyta cyn cael eu saethu.

Mae Xanana wedi cysylltu`r gorthrwm ar ei bobl, a`r genocide yn Nwyrain Timor gyda`r ffaith bod gwledydd y gorllewin wedi, ac yn dal i gyflenwi arfau i Indonesia.. Dywedodd ... *`Mae`n rhaid i lywodraeth Prydain dderbyn ei rhan o`r cyfrifoldeb moesol am y llofruddio yma. Mae`r gwerthiant diweddaraf o 24 Hawk yn rhoi sel bendith Prydain i Jakarta am yr hyn sy`n cael ei wneud`*.

Yn 1997 cafwyd datganiad wrth y Gweinidog Tramor Robin Cook oedd yn dweud bod gan Brydain bolisi tramor moesegol. Ei eiriau oedd *`We will not permit the sale of arms to regimes that might use them for internal repression or international aggression`*. Yn ystod yr un wythnos dywedodd Gweinidog Amddiffyn Indonesia wrth newyddiadurwyr Jakarta ei fod eisioes wedi dechrau trafod â llywodraeth Blair ynglyn â`r posibilrwydd o brynu 18 Hawk arall.



Mae Xanana yn dal yn y carchar. Mewn cyfweliad yn 1997 gafodd ei gynnal heb yn wybod i`r awdurdodau dywedodd... *`Yr hyn sy`n fy nghynnal yw`r côf am aberth fy mhobl, a`r ffaith fy mod yn gwybod na all yr un aberth gennyf fi gymharu â`r môr o waed sydd wedi golchi dros fy ngwlad. Ac felly rwy`n llwyddo i anghofio fy mhroblemau fy hun...`*

Er bod Suhatro wedi ymddiswyddo yn gynharach eleni mae`r sefyllfa yn Nwyrain Timor yn dal yn wael. Ym mehefin 1998 rhyddhaodd yr Arlywydd (newydd) Abibi 4 carcharor gwleidyddol - doedd dim un o`r rhain yn dod o Ddwyrain Timor. O leiaf mae`r byd yn gwrando a thalu sylw nawr - rhywbeth oedd ddim yn digwydd yn 1975, nag yn ystod y dair mlynedd ar hugain ers hynny. Fel y dywedodd un newyddiadurwr o ddwyrain Timor... *`Mae`r gwirionedd wastad yn chwyldroadol. Fel arall, pam fyddai llywodraethau yn treulio cymaint o amser yn ceisio`i gadw`n dawel`*.

***Things Can Only Get Better`*** i Tony a`i lywodraeth, ond mae pobl Dwyrain Timor yn dal i **wrthsefyll i ennill**.

## HANES CWPAN Y BYD - BRWYDRAU MAWR Y GORFFENNOL

### LLOEGR `66 (1066)

Y rownd derfynnol rhwng Harold a William y Bastard. Roedd Harold eisioes wedi ennill y rownd gyn-defrynnol yn Stamford Bridge yn erbyn Denmark. Cynhaliwyd y rownd derfynnol yn Hastings, ac roedd William yn llygad ei le. Llwyddodd i droi`r bel heibio wal amddiffynnol Harold o 7,000 o ddynion, yn y banana kick mwyaf mewn hanes. Aeth y bel yn syth fel saeth a tharo Harold - wedi hynny fe enillodd William *`Billy`s Boots`* yn hawdd - vive La France. dathlwyd y fuddugoliaeth gyda`r *Wall Chart* Cwpan y byd cyntaf mewn hanes - Tapestri Bayueux.



### FFRAINC `89 (1789)

Yr enillwyr y tro hwn oedd Ffrainc ac fe wnaethon nhw guro... Ffrainc yn y rownd derfynnol. Roedd y tim buddugol yn cynnwys tri *centre half* cadarn. Liberte, Egalite a Fraternite. Yng nghanol y cae roedd y *Sans Culottes* gweithgar. Ar yr asgell dde roedd Danton, ac ar y chwith Maximillien Robespierre. Yn y blaen roedd Madame La Guillotine, oedd byth yn colli ei phen yn y bocs! Wedi`r fuddugoliaeth aeth Ffrainc ymlaen i ddominyddu Ewrop am genhedlaeth nes i *boot boys* Wellington eu trechu.

Wall Chart cyntaf Cwpan y Byd






Yr Eidal v Spurs - gem gyfeillgar

### ITALIA `90 (CC - Cyn Cruyff)

Rhoion nhw`r gem ar Blatini.



MICHEL PLATINI

You`re goin` home in a flashin` chariot!

Chwaraewr reolwr y tim oedd Juli Caesar. Roedd gan y meistr dactegwr hwn allu aruthrol. Croeshoelwiyd yr Iddewon yn y rownd gyntaf. aeth ymlaen i smasho`r Eifftiaid yn y Nile rownd a llwyddodd i ennill y gem derfynnol o un Gaul i ddim. Yn anffodus yn fuan ar ôl hyn, llwyddodd *player power* ei dim ei hun i gael gwared arno.

# TONYPANDY 1910 A`R *MINERS` NEXT STEP*

Ym mis Tachwedd 1910 cafwyd streic a therfysg yn Nhonypandy. Does dim byd yn anghyffredin am hyn: roedd digwyddiadau tebyg yn gyffredin yn Ne Cymru ddechrau`r ganrif hon. Yr hyn sy`n bwysig am derfysg Tonypandy yw`r drafodaeth ymhlith haneswyr am beth yw ei arwyddocad hanesyddol. Mae`r drafodaeth yn dod yn fwy diddorol pan fod haneswyr yn ystyried y cysylltiad rhwng streic Tonypandy 1910 a chyhoeddi pamffled chwyldroadol y *Miners` Next Step* yn y dref honno ddwy flynedd yn ddiweddarach.


Yn ôl Dai Smith roedd pobl ar y pryd, ac mae haneswyr ers hynny wedi sylweddoli bod **digwyddiadau Tonypandy yn rhan o frwydr sylfaenol** - sef y frwydr am sut i drefnu cymdeithas. Ers 1898 pan ffurfiwyd Ffederasiwn Glowyr De Cymru, neu`r *Fed*, roedd gweithwyr yn y diwydiannau trwm wedi bod yn brwydro dros fwy o hawliau yn y lle gwaith, ac roedd y frwydr hon yn rhan o un ehangach am sut ddylai cymdeithas gael ei threfnu.

Ar ddechrau`r ganrif roedd cwarter miliwn o bobl yn gweithio yn y diwydiant glo yng Nghymru, yn dioddef amodau byw a gwaith erchyll, a gorthrwm wrth y meistri glo. Yn aml y meistri glo `Rhyddfrydol` oedd yn eu cynrychioli yn y Senedd, ac roedd yn anodd i`r glowyr hyn weld pam y dylien nhw gefnogi`r meistri mewn etholiadau, tra`n brwydro`n eu herbyn am hawliau sylfaenol o ddydd i ddydd. Yn 1911 roedd 150,000 o bobl yn byw yn y Rhondda, ac roedd cwmniau enfawr fel Cwmni Cambrian Combine yr Arglwydd Rhondda, DA Thomas, yn cyflogi dros 12 mil o bobl, gan gynhyrchu dros hanner glo y Rhondda.

Dechreuodd yr anghydfod am gyflogau ym Mhwll Glo Elai oedd yn rhan o`r Cambrian Combine pan gafodd 800 o weithwyr eu cloi allan ar Fedi 1, 1910. Yn ystod y misoedd canlynol gwelwyd trais ar strydoedd Tonypandy, ac ar yr 8fed o Dachwedd anfonodd Prif Gwnstabl Morgannwg, Capten Lindsey delegram i`r Swyddfa Gartref yn gofyn am gymorth. Y Gweinidog Cartref ar y pryd oedd Winston Churchill, a phenderfynwyd anfon heddlu ychwanegol a`r *Cavalry* i`r ardal dan arweiniad y Cadfridog Macready.

Roedd tua 9,000 o streicwyr erbyn hyn yn taflu cerrig at yr heddlu, ac yn dinistrio eiddo a siopau. Daeth gorchymyn wrth Churchill i Macready i anfon y milwyr mewn i dawelu`r protestwyr. Dyw pobl yr ardal byth wedi maddau i Churchill am hyn. Hyd yn oed yn 1978 pan ofynnodd ŵyr Churchill gwestiwn am y glowyr yn Nhy`r Cyffredin, fe`i cyhuddwyd gan y Prif Weinidog Llafur James Callaghan o gael *vendetta* personol yn erbyn y glowyr, a chyfeiriodd at ddigwyddiadau 1910 yn Nhonypandy.

Ond nid y brotest a`r streic yn Nhonypandy eu hunain sy`n bwysig, ond sut wnaeth pobl ymateb iddyn nhw, Dywedodd **Arthur Horner**, ddaeth yn arweinydd y glowyr yn ddiweddarach *`Fe welais i`r diwrnod hwnnw yn Nhonypandy y cynghrair ffiaidd rhwng y Llywodraeth a`r meistri glo, yn cael cefnogaeth yr heddlu a`r lluoedd arfog, yn erbyn glowyr oedd yn gofyn am ddim mwy na chyflog oedd yn eu hatal rhag llwgu. Wnes i fyth anghofio`r wers.`*



Michael Caine

Effaith Tonypandy mewn gwirionedd oedd i greu gweithlu mwy radical yn Ne Cymru, ac un oedd yn troi fwy fwy at ddilyn dulliau syndicalaidd o weithredu, y tu allan i`r Senedd, yn hytrach na rhoi eu ffydd mewn sefydliad oedd yn gweithio`n eu herbyn. Yn ystod y blynyddoedd canlynol cafodd y *Fed* wared ar lawer o`r hen arweinwyr cymhedrol oedd yn credu mewn cydweithio â`r meistri: daeth cyfnod William Abraham (Mabon) fel arweinydd i ben yn 1912, a daeth to ifanc newydd o arweinwyr mwy radical yn eu lle - pobl fel Noah Ablett.

Yn 1912 hefyd cyhoeddwyd pamffled radical a dylanwadol yn Nhonypandy o`r enw`r *Miners` Next Step*. Roedd hwn yn galw am isafswm cyflog, diwrnod gwaith 7 awr, ac yn fwy na dim am *`hostility to all capitalist parties...... Political action must go side by side with industrial action`*. Roedd y *Miners` Next Step* yn dadlau bod yn rhaid dod â`r polisi o `ddiddordeb cyffredin` rhwng gweithwyr a meistri i ben, a chael polisi o wrthdaro agored. Y nod yn y pen draw oedd creu mudiad fyddai`n cymryd rheolaeth o ddiwydiant.



William Abraham aka Mabon

Mae dadleuon y *Miners` Next Step* yn gwbl groes i rai Plaid Lafur Newydd Tony Blair, sy`n datgan erbyn hyn mai partneriaeth rhwng gweithwyr a meistri yw`r nod. Mae gwir ddemocratiaeth, nid yr hawl i beleidleisio bob pum mlynedd, yn un o ofynion sylfaenol y pamffled chwyldroadol.

*`Ein hunig nod yw i sicrhau bod y rhai sy`n creu cyfalaf yn ei dderbyn... gan adael i`r dynion eu hunain benderfynu o dan ba amodau, a sut ddylai`r gwaith gael ei wneud. Byddai hyn yn golygu democratiaeth go iawn. Mae pob math arall o ddemocratiaeth yn dwyll.`*